# PATHEW



## 1. SEFYLLA BRESENNOL

### 1.1 Deddfwriaeth a Statws blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| Rhyngwladol | Cyfarwyddiaeth Cynefinoedd[a] (Atodiad IV) |
| | Confensiwn Berne (Atodiad III) |
| DU a Chymru | Rheoliadau Cynefin[b] (Atodlen 2) |
| | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Atodlenni 5 a 6) |
| | Deddf Diogelu Mamaliaid Gwyllt 1996 |
| | Blaenoriaeth CGB Prydain |
| | Rhestr S74 Cymru[c] |
| Gwynedd | CGB Eryri |

### 1.2 Sefyllfa yng Nghymru a thu hwnt

Gwelir y pathew cyffredin neu pathew'r cyll[d] yn bennaf yn siroedd deheuol Lloegr ac yng Nghymru. Dangosodd arolygon yn yr 1980au a'r 1990au fod pathewod wedi diflannu o nifer o siroedd gogleddol, a'u bod yn dirywio tua'r de. Hyd yn oed yn y de, mae eu dosbarthiad yn wasgaredig ac yn dameidiog.

Mae dosbarthiad eang o bathewod yng Nghymru, ond mae poblogaethau unigol yn fychan, ar wasgar ac wedi eu hynysu oddi wrth ei gilydd. Mae'r pathew yn famal prin iawn yng Ngogledd Cymru, gydag ond ychydig o boblogaethau y gwyddys amdanynt, a chlystyrau gwasgaredig yn Ne Cymru. Dangosodd arolwg a wnaethpwyd yn yr 1990au nifer o boblogaethau yng Ngogledd Cymru nad oeddynt yn hysbys ynghynt. Mae'r wybodaeth gyfredol yn awgrymu eu bod yn fwy cyffredin yn y dwyrain nag yn y gorllewin.



[a] Gorchymyn Cyngor 92/43/EEC 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol i anifeiliaid a blodau gwyllt.
[b] Rheoliadau Cadwraeth Ewropeaidd (Cynefinoedd Naturiol) 1994
[c] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Going Wild in Wales - List of Species and Habitats of Principal Importance for the Conservation of Biological Diversity. Hawlfraint y Goron, 2003.
[d] *Muscardinus avellanarius*

### 1.3 Y sefyllfa yng Ngwynedd [e]

Gwyddys bod pathewod mewn sawl rhan o Wynedd (y rhan fwyaf ond nid y cwbl tu mewn i ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri) – ger Corris, Dolgellau, Betws-y-Coed, Llanrwst ac yn Nyffryn Dyfi.

Mae tystiolaeth ar lafar fod pathewod yn bresennol ar Benrhyn Llŷn yn ystod yr 1980au, ond credir bod y rhain wedi diflannu bellach.

## 2. FFACTORAU SYDD YN EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH YNG NGWYNEDD [f]

- Colli cynefin addas
- darnio a diraddio cynefin coediog addas – nid yw pathewod yn fodlon iawn croesi tir agored, a chan nad ydynt yn byw mewn niferoedd mawr mewn unrhyw un safle, maent yn annhebygol o goloneiddio safleoedd newydd
- Llai o isdyfiant mewn coedlannau oherwydd defaid yn pori
- Gostyngiad mewn rheoli traddodiadol o goedlannau, yn enwedig bondocio, sy'n creu isdyfiant o frigau gwasgarog, llwybrau a rhywogaeth llwyni ar gyfer tyfiant bwyd a dim gormod o gysgod gan goed mwy.
- Newid mewn hinsawdd – gall gaeafau cynhesach arwain at ostyngiad yng ngraddfa goroesi pathewod, oherwydd fod patrymau gaeafgysgu yn cael eu heffeithio. Mae hafau gwlyb claear yn gostwng yn ddramatig gobeithion goroesi pathewod newydd-anedig.

## 3. CGR / CGC PERTHNASOL YNG NGWYNEDD

Coed ynn cymysg yr ucheldir, Cloddiau

## 4. CAMAU CYFREDOL YNG NGWYNEDD

### 4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Gall pathewod fodoli mewn rhannau o Wynedd sydd wedi eu nodi fel safleoedd Bywyd Gwyllt posibl, neu wedi eu dynodi fel GNL, SoDGA, GNG neu ymgeisydd ACA, fodd bynnag nid oes manylion ar gael.
- Pan fydd angen AEA ar gyfer datblygiadau arfaethedig (e.e. cynlluniau adeiladu ffyrdd), dylai'r rhain gynnwys archwiliadau am rywogaethau a ddiogelir, pathewod yn eu mysg. Pan welir bod pathewod yn bresennol efallai y bydd angen mesurau ymyrraeth.

### 4.2 Rheolaeth a Chynlluniau Gweithredu

- Ar rai safleoedd Menter Coedwigaeth, yn cynnwys Pantperthog ger Corris, anogwyd rheolwyr i greu amodau addas ar gyfer pathewod.
- Gall Cynlluniau Grant ar gyfer rheoli coedlannau (e.e. Cynllun Grant Coedlannau) a rheolaeth amaeth-amgylcheddol (e.e. Tir Gofal), gyfrannu tuag at gynnal a gwella cynefin addas i'r pathew.

---

[e] Yn y ddogfen hon, bydd y term "Gwynedd" yn cyfeirio at ardaloedd y tu allan i ardal Parc Cenedlaethol Eryri, heblaw pryd y nodir fel arall

[f] Gweler hefyd CGCau cysylltiedig am ffactorau mwy cyffredinol sy'n effeithio ar gynefinoedd rhywogaethau

- Mae'r pathew  yn un o'r rhywogaethau sydd yn gymwys ar gyfer arian o Gronfa Rhywogaethau Arbennig Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Pan fydd angen AEA ar gyfer datblygiadau arfaethedig (e.e. cynlluniau adeiladu ffyrdd), dylai'r rhain gynnwys archwiliadau am rywogaethau a ddiogelir, pathewod yn eu mysg. Pan welir bod pathewod yn bresennol efallai y bydd angen mesurau ymyrraeth i leihau'r effeithiau andwyol.

**4.3 Arolwgu, ymchwilio a monitro**

- Gosodwyd blychau nythu ym Mhantperthog yn 1994 a arolygir yn rheolaidd, fel rhan o gynllun Prydain eang a sefydlwyd gan y Gymdeithas Mamaliaid.
- Mae staff Menter Coedwigaeth Lleol yn cymryd rhan mewn prosiect Ymchwil Coedwigaeth ehangach sy'n edrych ar anghenion cynefin pathewod, yn enwedig yng nghyswllt coed conwydd ac adnewyddu Planhigfeydd ar Safleoedd Coedlannau Hynafol.
- Hybwyd Yr Helfa Gnau Fawr 2001 yng Ngwynedd.

## 5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Sefydlu beth yw statws a dosbarthiad pathewod yng Ngwynedd.
2. Diogelu, cynnal a chynyddu niferoedd y poblogaethau presennol o bathewod, trwy gadwraeth a gwella'r cynefinoedd cysylltiedig.
3. Annog rheolaeth briodol o goedlannau a gwrychoedd addas ar gyfer pathewod pan fo hynny'n bosib, yn enwedig ardaloedd o gynefin sy'n ffinio neu chysylliedig a phoblogaethau presennol o bathewod.
4. Defnyddio'r pathew fel rhywogaeth arbennig i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd rheolaeth briodol o'i chynefinoedd cysylltiedig.

## 6. CAMAU ARFAETHEDIG

| Côd | Camau | Partner(iaid)[9] |
|---|---|---|
| **Polisi a Deddfwriaeth** | | |
| 1 | Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiad mewn mannau sensitif yn cyd-fynd â chadwraeth y pathew<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | ***CG***, partneriaid perthnasol |
| 2 | Parhau i ofyn am arolygon pathewod a mesurau lliniaru pan yn briodol ar gyfer bob datblygiad sy'n amharu ar, neu'n ynysu, coedlannau, cloddiau neu brysgoed a fyddai o bosib yn addas<br>TARGED: Cyfredol | ***CG*** |
| 3 | Ystyried dynod isafleoedd addas o bwysigrwydd i'r pathew fel Safle Bywyd Gwyllt<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol: Cychwyn y broses ddynodi yn 2004 | ***CG*** ,CBGGC, CCGC, CC, YBGV |
| **Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd** | | |
| 4 | Sicrhau fod presenoldeb potensial ac anghenion rheoli'r pathewod yn cael eu hystyried mewn unrhyw gynlluniau rheoli neu gynlluniau grant perthnasol (e.e. CRCC, CGrC) drwy gydweithio(gan gynnwys ymgynghori a sylwadu)<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | ***CCGC***, CCth, CG, YBGV |
| 5 | Hyrwyddo a chefnogi prosiectau gan gynnwy sprosiectau CCTH. Defnyddio cytundebau rheolaeth pan yn addas i sicrhau rheolaeth ffafriol gan gymeryd ystyriaethau rhywogaethau a chynefinoedd CGB eraill.<br>TARGED/AMSERLEN: I'w osod, Cyfredol | ***CCGC***, CC, CyT,CCth, UAC, UCG, |
| 6 | Edrych am nawdd ar gyfer rheolaeth tir drwy ddatblygu prosiect grantiau bioamrywiaeth, a fyddai yn cynnwys grantiau ar gyfer rheolaeth briodol, ail-greu a chreu cynefin i'r pathew.<br>TARGED/AMSERLEN: erbyn 2005 | ***CG*** partneriaid perthnasol |
| **Cyngor** | | |
| 7 | Hysbysu'r holl dirfeddianwyr, rheolwyr, ac/neu ymgynghorwyr perthnasol (yn cynnwys y Comisiwn Coedwigaeth, a swyddogion Coed Cymru) o bresenoldeb coloniau pathewod ac i gynnig cyngor ar opsiynau rheoli addas.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **YBGV**, CC, CCGC, CCth, CG |
| **Arolwg, ymchwil a monitro** | | |
| 8 | Cynnig cyngor a hyfforddiant rheolaidd ar gadwraeth y pathew i swyddogion rheolaeth datblygu, peiriannwyr priffyrdd, staff AA ac hyrwyddo digwyddiadau hyfforddiant gan Grwp Llywio Dyfrgwna Lonydd.<br>TARGED/AMSERLEN: I'w osod, Cyfredol | ***CG***, CCGC,CBNGG |
| 9 | Pryd bynnag y doir o hyd i dystiolaeth o bathewod, gweithredu arolwg tyfiant Cam Dau o'r ardal gyfagos cyn gynted â phosib. Sicrhau fod y data yn cael ei integreiddio gydag unrhyw ymchwil arall sy'n digwydd i anghenion cynefinoedd pathewod e.e. gan Forest Research<br>TARGED:i'w bennu/ cyfredol | ***CCGC*** |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | | |
| 10 | Annog y cyhoedd i gofnodi pryd y gwelant unrhyw bathewod, i'w basio ymlaen i'r GBNGC i'w casglu, yn dilyn patrwm yr Helfa Gnau Fawr, trwy roddi hysbysebion yn y papurau lleol, a threfnu digwyddiadau undydd achlysurol<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | ***CG*** |

[9] Mae'r prif bartner wedi ei nodi mewn ysgrifen dywyll, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

## 8 PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

### 8.1 Prif Bartner ar gyfer CGR

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

### 8.2 Partneriaid allweddol

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CyT)

Coed Cymru (CC)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Comisiwn Coedwigaeth (CCth)

Cyngor Gwynedd (CG)

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (UCF)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent (YBGV)

### 8.3 Cyfleon

Gwirfoddolwyr, myfyrwyr, undebau amaethyddol, perchnogion a rheolwyr tir

## 9. DIOLCHIADAU

Awdur: Jane Stott
Ymgynghorwyr: Jack Grasse, Pat Thompson, Jean Matthews (CCG), Robert Greig(Prosect Dyfrgwn Môn), Jill Jackson (CG), John Messenger (YBGV)

## 9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, AEA: Asesiad Effaith Amgylcheddol, CGC Cynllun Gweithredu Cynefin, CGBL: Cynlun Gweithredu Bioamrwyiaeth Lleol CGC: Cynllun Gweithredu Cynefin, GNL: Gwarchodfa Natur Leol, GNG: Gwarchodfa Natur Leol, CRCC Cynllun Rheolaeth Coetir Cynhenid, ACA ardal Cadwraeth Arbennig, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaeth SoDGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. CGrC: Cynllun grantiau Coetiroedd

Fersiwn 1, 2004